ASESU A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD O'R FFORWM CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Mai 2003, am 10.30am
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Presennol

Y Cynghorydd P Palmer (Cadeirydd)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd T Theophilus	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd T D Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd M Taylor	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
John Flower	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster	SLR Consulting Ltd
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Philip Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Henderson	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd A Lloyd-Jones	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Y Cynghorydd K Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd K T Rowlands	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd K F King	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd D Vaughan	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd D Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd B Owen	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd B Hall	Cyngor Sir Penfro

2. Cofnodion y cyfarfod ar 31ain Ionawr 2003

Eitem 5: Adroddodd y Cyng Taylor i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gymeradwyo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth ym mis Medi 2002.

Cytunwyd bod y nodiadau'n gofnod cywir ac nid oedd materion yn codi.

3. Nodiadau'r Seminar ar 31ain Ionawr 2003

Nodwyd.

4. Nodiadau'r GrŶp Technegol ar 4ydd Ebrill 2003

Nodwyd.

5. Nodiadau'r GrŶp Technegol ar 28ain Ebrill 2003

Nodwyd.

Gofynnodd Ruth Brown am gopi o'r cyflwyniad gan AF ar yr *Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Drafft Cam 2* diwygiedig. **Gweithredu: AF**

Adroddodd GW y cytunwyd yn y cyfarfod Cyswllt Cymru Gyfan ar 14eg Mai, y byddai cyfarfod pellach yn cael ei gynnal ym mis Medi, er mwyn i gynrychiolwyr o LlCC, Swyddogion arweiniol a Chadeirydd y tri Rhanbarth fod yn bresennol. **Gweithredu: GW** i gadarnhau'r dyddiad unwaith bydd yn cael ei gytuno.

6. Cynaliadwyedd – Pwyso a Mesur yr Opsiynau

Rhoddodd AF gyflwyniad ar *Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Cam 2b (Drafft Ymgynghori).* Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad, ac felly ni chaiff ei ailadrodd yma.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth a nodwyd y prif bwyntiau canlynol.

- Dylai'r CGRh gynnwys nifer o opsiynau er mwyn cynnal hyblygrwydd. Yn sgîl amrywiaeth trefol/gwledig Rhanbarth DOC efallai na fydd un opsiwn yn addas i'r rhanbarth cyfan;
- Mynegwyd pryder bod 'diocsinau' wedi cael eu hychwanegu at yr ymarfer pwysiad. Adroddodd GW ar y rhesymu y tu ôl i hyn ac egluro mai'r diben oedd sicrhau elfen o gysondeb ar draws y tri Rhanbarth. Nodwyd mai dim ond at y *dadansoddiad sensitifrwydd* yr ychwanegwyd yr elfen ddiocsin yn Rhanbarth DOC;
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pa gam o'r broses roedd y ddau Ranbarth arall wedi cyrraedd. Adroddodd GW fod y tri Rhanbarth wedi cyrraedd man tebyg, gan fod yr un 6 opsiwn wedi cael eu cytuno ac yn cael eu symud ymlaen i'r cam ymgynghori. Nodwyd hefyd bod y CGRhau yn cael eu drafftio ochr yn ochr â'r ymarferiad ymgynghori. **Gweithredu: GW** i ddosbarthu cadarnhad ysgrifenedig o'r 'sefyllfa bresennol' i'r Fforwm Aelodau;
- Gofynnwyd i AF roi cyflwyniad ar baratoi'r CGRh i Aelodau'r Cyngor ym mhob Awdurdod unigol. **Gweithredu: GW/HB** i wirio manylion y contract gydag SLR. **GW** i gysylltu â'r Cyng Palmer; a
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut bydd LlCC yn edrych ar y CGRh. Nodwyd y byddai'r CGRh yn ystyriaeth gynllunio ymarferol ac y bydd yn rhaid i awdurdodau unigol ddangos eu bwriad i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn y CGRh.

O ganlyniad, cytunwyd ar y canlynol.

- Defnyddio'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd;
- Defnyddio canlyniadau'r Ymgynghoriad i fwydo i'r Strategaeth Wastraff sy'n datblygu;
- Cyflwyno adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Fforwm Wastraff, ynghyd â Drafft Cyntaf o'r Strategaeth Wastraff Ranbarthol;
- Argymhellir bod SLR yn rhoi cyflwyniad i bob awdurdod unigol ar baratoi'r CGRh.

7. Amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, gan gynnwys ymgynghori a dyddiad y cyfarfod nesaf

Amlinellodd GW yr amserlen arfaethedig, gan danlinellu'r prinder amser. Amserlen: **Cytunwyd.**

8. Memorandwm o Ddealltwriaeth

Adroddodd GW fod CBS Castell-nedd Port Talbot bellach wedi cymeradwyo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth. **GW** i geisio cadarnhad gan Gyngor Sir Ceredigion.

9. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd dim.